


Canllaw Mewnforio/Allforio'r Byd

Bydd y canllaw syml hwn yn eich tywys trwy'r camau o sut i ddefnyddio'r byd Minecraft rydych chi newydd ei lawrlwytho a sut i'w arbed a'i allforio ar ôl i chi orffen eich creadigaethau!

Cam 1 – Lawrlwythwch Ffeil y Byd

Sicrhewch fod y byd “Craft My City” wedi'i lawrlwytho o'r ddolen yn nisgrifiad y gystadleuaeth. Os na allwch chi ddod o hyd iddo, gwiriwch eich ffolder lawrlwytho yn eich archwiliwr ffeiliau.




Cam 2 – Agorwch Minecraft Education Edition


Os nad ydych chi wedi'i lawrlwytho, gallwch ddod o hyd i'r ddolen lawrlwytho yma:

<https://education.minecraft.net/get-started/download>

Bydd Minecraft Education Edition yn gofyn i chi fewngofnodi yn awtomatig. Defnyddiwch eich e-bost ysgol a byddwch chi'n cael eich tywys i'r sgrin gartref sy'n edrych fel hyn:




Unwaith i chi wasgu “Play”, byddwch chi’n cael eich tywys i’r sgrin hon:




Cam 3 – Cliciwch Import

Bydd Minecraft Education Edition yn agor ffenestr archwiliwr ffeiliau lle gallwch chi ddewis ffeil i'w mewnforio. Ewch i'ch ffold er lawr i'w rhoi a dewiswch y byd “Craft My City” a gwasgwch “Open.”



Gallwch weld bod y byd wedi mewnforio yn llwyddiannus os yw'r ffenestr archwiliwr ffeiliau yn cau bod Minecraft yn dangos y neges ganlynol:



Cam 4 – Cliciwch “View my Worlds”


Bydd hyn yn mynd â chi i weld yr holl wahanol fydoedd rydych chi wedi'u harbed ar eich cyfrifiadur. Os ydych chi wedi defnyddio Minecraft Education Edition o'r blaen, efallai bydd mwy o fydoedd, ond dylech weld byd o'r enw “Craft My City” (gallai'r ddelwedd edrych ychydig yn wahanol). Dylai edrych fel hyn:



Llongyfarchiadau! Gallwch chi nawr chwarae yn y byd “Craft My City” drwy glicio ar y byd unwaith yna gwasgu’r botwm “Play”.

Gosodiadau'r Byd


Cliciwch ar y byd unwaith, yna dewiswch "Settings". Dylai'r sgrin edrych fel hyn:



Gallwch chi newid enw eich byd i enw eich tîm neu enw unigol ar y top.

Ar y gwaelod, gallwch chi greu copi o'r byd trwy glicio "Copy World".

Rydyn ni'n argymhell eich bod yn gwneud hyn cyn i chi ddechrau gweithio arno fel bod gennych chi fersiwn heb ei newid rhag ofn i unrhyw beth fynd o'i le!




Os ydych chi'n creu copi, dylai ddangos yn "My Worlds":



Allforio'r Byd

Unwaith i chi orffen adeiladu yn eich byd, bydd angen i chi ei allforio i'w anfon i mewn fel cais.

Ar waelod gosodiadau'r byd, cliciwch "export world". Dylai ffenestr archwiliwr ffeiliau agor. Dewiswch ble i arbed eich byd a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n galw'r byd yn enw eich tîm neu enw eich cyflwyniad unigol. Dylai'r ffenestr edrych fel hyn:



Bydd y byd yn cael ei gadw fel ffeil ".mcworld" ble bynnag y dewisioch chi ei arbed. Rydyn ni'n argymhell defnyddio'ch ffolder lawrlwytho fel y gallwch chi ddod o hyd iddo yn hawdd pan fyddwch chi'n uwchlwytho'ch cais i'r gystadleuaeth!